Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion

Gorffennaf 2013

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD / GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Iechyd ar Waith / Health at Work

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **3**

**Argymhellion** **5**

**Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion** **6**

Sefydliadau addysg bellach 6
Deilliannau dysgwyr 7
Addysgu ac asesu 8
Y cwricwlwm 8
Adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau 10
Cymorth i ddysgwyr 10
Gwella ansawdd 10
Rheoli darpariaeth 11

**Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr: Prosiect cynrychioli myfyrwyr addysg bellach** **12**

Canolfannau Cymraeg i oedolion 13
Medrau iaith dysgwyr 14
Ansawdd yr addysgu 15
Cwricwlwm ac adnoddau 16
Gweithdrefnau, cyfleusterau a lleoliadau 17
Gwella ansawdd 17
Rheoli darpariaeth 17

**Atodiad 1: Sail y dystiolaeth**

**Atodiad 2: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn yw'r ail mewn cyfres o dri adroddiad y gofynnodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau amdanynt. Ei fwriad yw llywio'r adolygiad o arweiniad Strategaeth Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr dysgu ôl-16, a'i ddatblygu ymhellach, a lledaenu astudiaethau achos arfer orau ar draws y rhwydwaith ôl-16.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ba mor dda y mae sefydliadau addysg bellach (SABau) a chanolfannau Cymraeg i oedolion yn rhoi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith.

Fel rhan o'r arolwg hwn, mae arolygwyr wedi casglu ac arfarnu ystod o wybodaeth. Rydym wedi ymweld â phum sefydliad addysg bellach a phum canolfan Cymraeg i oedolion (gweler Atodiad 1) i fynd i'r afael â'r cynnydd y maent wedi'i wneud ers cyflwyno Strategaeth Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru yn 2010.

## Cefndir

Yn Chwefror 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru arweiniad ar gyfer darparwyr ôl-16 ar roi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith. Mae'r arweiniad yn helpu darparwyr i fynd y tu hwnt i gynnal arolygon o safbwyntiau dysgwyr i roi rôl allweddol i ddysgwyr mewn ffurfio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiad o ddysgu.

Mae'r arweiniad yn amlinellu fframwaith ar gyfer strategaethau cynnwys dysgwyr. Mae'n galw ar ddarparwyr dysgu gydol oes a sgiliau i wneud yn siŵr bod eu strategaethau eu hunain yn cynnwys:

- datganiad o ymrwymiad gan uwch reolwyr y sefydliad i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cymryd rhan yn uniongyrchol mewn ffurfio eu profiadau dysgu eu hunain;
- nodau strategol clir ar gyfer ymgynghori â dysgwyr ac ar gyfer eu helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u hamgylchedd;
- trefniadau ar gyfer gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol i gynnwys dysgwyr;
- trefniadau ar gyfer casglu safbwyntiau dysgwyr trwy systemau strwythuredig, gan eu defnyddio i wella ansawdd y dysgu, ac adrodd yn ôl i ddysgwyr er mwyn iddynt allu gweld sut mae eu safbwyntiau wedi gwneud gwahaniaeth;
- trefniadau ar gyfer gofyn am safbwyntiau dysgwyr 'sy'n anodd eu cyrraedd';
- gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a hyfforddi cynrychiolwyr dysgwyr er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol;
- trefniadau ar gyfer integreiddio safbwyntiau dysgwyr mewn systemau sicrhau ansawdd, gan gynnwys hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd; a
- threfniadau ar gyfer monitro, arfarnu ac adrodd ar roi'r strategaeth ar waith a'i heffeithiolrwydd, gan gynnwys ffyrdd o roi gwybod i ddysgwyr am y camau a gymerwyd i ymateb i'w hadborth.

Cyhoeddodd Estyn adroddiad yn dwyn y teitl ‘Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys y dysgwyr mewn dysgu ôl-16’ ym Mai 2012, a arfarnodd i ba raddau yr oedd darparwyr ôl-16 yn defnyddio strategaethau cynnwys dysgwyr a ph’un a oeddent yn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr.

Canfu arolygwyr fod darparwyr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16:

- yn gwneud defnydd da o strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu a rhoi eu strategaeth eu hunain ar waith neu maent yn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn unol â chanllawiau cenedlaethol; ac
- yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys dysgwyr yn y rhan fwyaf o sectorau ôl-16.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddarparwyr yn y sector ôl-16 wedi sefydlu systemau i fonitro ac arfarnu manteision cynnwys dysgwyr. Nid oedd darparwyr yn cofnodi sut roedd y gweithgareddau hyn yn gwella deilliannau ffurfiol ar gyfer dysgwyr.

Serch hynny, gallai’r rhan fwyaf o ddarparwyr ôl-16, a dysgwyr, ddisgrifio manteision cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr. Roedd dysgwyr wedi gwella ystod o fedrau yn gysylltiedig â’u dewis gweithgaredd dysgu, yn ogystal â’u medrau personol a chymdeithasol a’u cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol. Credai darparwyr fod dysgwyr yn gwella eu hyder, yn cael ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth ar eu dysgu, ac yn datblygu dealltwriaeth well o’r prosesau dysgu.

Argymhellodd yr adroddiad y dylai darparwyr mewn sectorau ôl-16:

- sefydlu systemau ar gyfer cofnodi’r ystod o ddeilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr;
- gwella’r systemau ar gyfer monitro dysgwyr er mwyn nodi effaith cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr ar ddysgwyr unigol; a
- chefnogi dysgwyr i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cynnwys dysgwyr ar lefel leol a chenedlaethol.

Mae’r adroddiad hwn yn arfarnu i ba raddau y mae sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion wedi gwneud cynnydd yn rhoi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith a mynd i’r afael â’r argymhellion o adroddiad Mai 2012.

Er 2010, mae’r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi rhoi cyllid i Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i sefydlu strwythurau ar gyfer cynrychioli myfyrwyr a chynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach ledled Cymru. Mae’r prosiect wedi darparu hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr myfyrwyr a chynrychiolwyr dosbarth i’w helpu i gyflawni eu rôl. Rydym wedi cynnwys Prosiect Cynrychioli Myfyrwyr Addysg Bellach Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn ein harfarniad o effaith strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom gyfarfod â rhai o’r staff a’r dysgwyr sy’n cymryd rhan yn y prosiect cynrychioli dysgwyr yn ystod ein hymweliadau â sefydliadau addysg bellach unigol a chynhaliwyd cyfarfod gyda staff y prosiect.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae arweiniad Strategaeth Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr ôl-16 a phrosiect cynrychioli dysgwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wedi helpu sefydliadau addysg bellach (SABau) a chanolfannau Cymraeg i oedolion i wella'r modd y mae dysgwyr yn ffurfio eu profiad dysgu.

2 Mae darparwyr yn y ddau sector wedi symud yn sylweddol y tu hwnt i ddefnyddio arolygon dysgwyr fel y prif ffyrdd o gasglu a dadansoddi safbwyntiau a barn dysgwyr. Maent yn cynnwys dysgwyr yn dda mewn gweithgareddau sy'n eu helpu i ffurfio'r cwricwlwm, dylanwadu ar welliannau yn ansawdd yr addysgu, cynnig cyngor i ddarparwyr ynglŷn ag ansawdd cyfleusterau a chyfrannu at hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd. O ganlyniad, mae gan ddysgwyr rôl bwysig mewn gwella darpariaeth.

3 Mae darparwyr yn y ddau sector yn cael anhawster yn mesur effaith cynnwys dysgwyr ar gyrhaeddiad neu fedrau dysgwyr. Dim ond dechrau rhoi systemau ffurfiol ar waith ar gyfer cofnodi a chydnabod y deilliannau hyn ar gyfer dysgwyr y mae darparwyr. Yn y ddau sector, mae'n glir bod cynnwys dysgwyr mewn ffurfio eu profiad dysgu yn eu helpu i wella eu medrau personol a chymdeithasol a'u lles.

4 Yn y sector Cymraeg i oedolion, mae darparwyr a dysgwyr yn credu bod dysgwyr yn gwella eu medrau Cymraeg trwy ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun gwahanol yn ystod eu gweithgareddau cynnwys dysgwyr.

5 Mae darparwyr yn y ddau sector yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio cynrychiolwyr dosbarth, siarad â dysgwyr fel rhan o arsylwadau addysgu a dysgu, paneli yn cynnwys staff a dysgwyr, grwpiau ffocws a thrafodaethau ffurfiol gydag unigolion a gweithgareddau cyfoethogi sy'n ymestyn medrau dysgwyr. Yn bwysig i hyn yw'r ffaith bod darparwyr yn addasu gweithgareddau yn dda i fodloni anghenion eu sefydliad a'u dysgwyr eu hunain er mwyn gwneud y gorau o fanteision cynnwys dysgwyr.

6 Mae gan ddysgwyr farn gadarnhaol am y modd y mae sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion yn eu cynnwys mewn ffurfio eu profiad dysgu. Maent yn credu bod darparwyr yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u barn ac yn eu cymryd o ddifrif.

7 Mae'r holl ddarparwyr yn y ddau sector wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i adrodd yn ôl wrth ddysgwyr am yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i'w cynnwys. Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o'r modd y mae darparwyr wedi ymateb i'w safbwyntiau.

8 Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw canolfannau Cymraeg i oedolion yn rhoi adborth am yr hyn y mae dysgwyr mewn dosbarthiadau unigol wedi ei ddweud mewn arolygon. O ganlyniad, nid yw tiwtoriaid yn ymwybodol o'r hyn y gallent ei wneud i wella ansawdd y profiad dysgu ar gyfer eu dysgwyr. Yn yr un modd, nid yw dysgwyr yn gwybod sut mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar welliannau i'w dosbarth neu eu cwrs.

9 Mae llawer o diwtoriaid Cymraeg i oedolion yn agored i drafodaeth gyda dysgwyr ynghylch sut gallant wella'r hyn y maent yn ei gynnig i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw pob tiwtor yn deall pwysigrwydd trafod safbwyntiau a barn dysgwyr yn barhaus er mwyn gwneud newidiadau wrth i gyrsiau fynd rhagddynt.

10 Mae dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn credu bod cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn meithrin medrau sy'n eu helpu yn eu hastudiaethau, er enghraifft mae'r cyfrifoldebau ychwanegol y maent yn ymgymryd â nhw yn eu cymell i weithio'n galetach; neu maent yn gwella eu medrau rheoli amser er mwyn cwblhau eu holl weithgareddau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn rhybuddio bod gweithredu fel cynrychiolydd dosbarth yn aml yn golygu nad ydynt yn cael cymaint o amser ar gyfer eu hastudiaethau a gall hyn gael effaith negyddol ar ddeilliannau eu cwrs.

11 Mae dysgwyr Cymraeg i oedolion yn credu bod cymryd rhan mewn grwpiau ffocws neu baneli dysgwyr, neu weithredu fel cynrychiolydd dosbarth, yn eu helpu i ddefnyddio pob un o'r pedwar medr iaith mewn cyd-destun gwahanol, ac felly'n cyfrannu at wella eu cyflawniad. Fodd bynnag, mae dysgwyr sy'n ymgymryd â rôl cynrychiolwyr dosbarth yn credu y byddent yn elwa ar gael brîff mwy cynhwysfawr am rôl y cynrychiolydd dosbarth. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn paneli dysgwyr yn codi pryderon am eu gallu i fynychu paneli o ran amser, trefniadau gofal a chostau teithio.

12 Mae Prosiect Cynrychioli Myfyrwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn helpu dysgwyr i gyfrannu eu safbwyntiau a'u barn ar ffurf cyrsiau a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae cynrychiolwyr dosbarth yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i drafod materion a syniadau a chael adborth ar gyfer tiwtoriaid. Maent yn gweithio'n dda gyda thiwtoriaid a rheolwyr cyrsiau i geisio datrys materion, fel amseru aseiniadau. Bu'r prosiect yn llwyddiannus wrth wella'r modd y mae tiwtoriaid yn ymgynghori â phobl ifanc ac yn annog tiwtoriaid i adolygu beth maent yn ei addysgu a sut.

13 At ei gilydd, mae strategaethau effeithiol i gynnwys dysgwyr:

- yn defnyddio ystod eang o weithgareddau cynnwys gwahanol sy'n symud y tu hwnt i holiaduron dysgwyr ac arolygon i helpu dysgwyr i ffurfio eu profiad dysgu;
- yn gwella medrau personol a chymdeithasol dysgwyr ac yn cyfrannu at wella eu medrau pwnc;
- yn annog staff i wrando ar ddysgwyr ac ystyried eu safbwyntiau yn ddifrifol iawn; ac
- yn rhoi adborth i ddysgwyr sy'n eu helpu i ddeall pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i gael eu cynnwys.

## Argymhellion

**Dylai sefydliadau addysg bellach:**

A1 roi systemau ffurfiol ar waith i gofnodi a chydnabod ystod y deilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr; a

A2 gwneud yn siŵr bod eu trefniadau ar gyfer cynnwys dysgwyr yn helpu dysgwyr i ffurfio penderfyniadau sy’n effeithio ar y canlynol:

- deilliannau dysgwyr;
- addysgu ac asesu;
- y cwricwlwm;
- adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau;
- cymorth i ddysgwyr;
- gwella ansawdd; ac
- arwain a rheoli’r ddarpariaeth yn gyffredinol.

**Dylai Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr:**

A3 gofnodi a chydnabod effaith cynrychiolwyr dosbarth neu lywodraethwyr myfyrwyr ar addysgu a dysgu a rheoli a datblygu sefydliadau addysg bellach.

**Dylai canolfannau Cymraeg i oedolion:**

A4 roi systemau ffurfiol ar waith i gofnodi a chydnabod ystod y deilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr;

A5 gwella’r defnydd o arolygon neu holiaduron llais y dysgwyr i:

- wella’r cwrs ar gyfer dysgwyr presennol;
- rhoi adborth ar lefel dosbarth; a
- helpu dysgwyr i ddeall y modd y mae eu safbwyntiau a’u barn wedi cyfrannu at newidiadau a wneir i’w cwrs, ansawdd yr addysgu a’r asesu ac ansawdd y ddarpariaeth;

A6 gwella dealltwriaeth cynrychiolwyr dosbarth o’u rôl a’r hyn sy’n ddisgwyliedig ohonynt;

A7 gwella trefniadau ar gyfer cefnogi dysgwyr i weithredu fel cynrychiolwyr dosbarth neu gymryd rhan mewn paneli dysgwyr; a

A8 gwella dealltwriaeth tiwtoriaid o’u rôl mewn helpu dysgwyr i gyfrannu at wella eu cwrs a’u profiadau dysgu.

## Effeithiolrwydd strategaethau ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau Cymraeg i oedolion

### Sefydliadau addysg bellach

14 Ymwelodd Estyn â phum sefydliad addysg bellach fel rhan o'r arolwg hwn. Cynhaliwyd trafodaethau manwl gyda sampl gynrychioliadol o staff a thua 100 o ddysgwyr. Gwelsom fod gan bob un o'r pum sefydliad strategaethau effeithiol ar gyfer cynnwys dysgwyr sydd wedi eu hymgorffori'n dda yng ngwaith pob sefydliad. Roedd pob dysgwr o'r farn fod y sefydliadau yn hawdd mynd atynt, eu bod yn gwrando arnynt ac yn cymryd eu safbwyntiau o ddifrif. Roedd dysgwyr yn bendant y cawsant gynnig ystod dda o gyfleoedd i gymryd rhan a bod y sefydliadau hynny wedi gweithredu yn unol â'u safbwyntiau. Mae sefydliadau addysg bellach yn rhoi adborth i ddysgwyr ar yr hyn y maent yn ei wneud o ganlyniad i fewnbwn dysgwyr, ac yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda ynghylch pam nad aethpwyd ymlaen â rhai o'u syniadau.

15 Serch hynny, mae'r strategaethau a'r gweithgareddau a ddefnyddir gan sefydliadau unigol yn amrywio'n briodol yn dibynnu ar gyd-destun y sefydliad a'r dysgwyr. Ym mhob achos, mae sefydliadau addysg bellach yn cysylltu cynnwys dysgwyr â'u systemau ansawdd yn dda.

16 Mae pob sefydliad addysg bellach wedi symud y tu hwnt i ddefnyddio holiaduron neu arolygon fel y brif ffordd o helpu dysgwyr i gyfrannu at wella eu profiad dysgu. Mae'r holl sefydliadau yn defnyddio ystod ehangach o weithgareddau i gasglu barn a dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir. Mae'r rhain yn cynnwys holiaduron ac arolygon dysgwyr, paneli neu bwyllgorau dysgwyr, cynadleddau, cynrychiolwyr dosbarth a chwrs, llysgenhadon dysgwyr, ystod o weithgareddau wedi eu harwain gan ddysgwyr a gweithgareddau cyfoethogi.

17 Mae Coleg Penfro wedi creu fforwm ar-lein i ddysgwyr sydd wedi'i gysylltu â safle mewnrwyd y coleg. Mae'r fforwm yn cynnig llwyfan i fyfyrwyr leisio eu barn ar agweddau amrywiol ar fywyd y coleg a dull i'r coleg gasglu'r farn hon mewn ffordd effeithiol iawn. Gall pob myfyriwr yn y coleg gyfrannu gan fod y system yn integreiddio â'r systemau cofnodi cyfrifiaduron myfyrwyr. (Yn ystod cyfnod rhoi'r prosiect hwn ar waith yn 2011-2012, cofnodwyd 15,000 o ryngweithiadau ar y system.) Gall myfyrwyr drafod a phleidleisio ynghylch syniadau ei gilydd a gall pob myfyriwr gyfrannu, gan wneud y broses yn gynhwysol iawn. Mae'r coleg wedi gwneud ystod o newidiadau i'w ddarpariaeth o ganlyniad i adborth gan y fforwm. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau i'w raglen ymsefydlu, ei raglen diwtorial a'i bolisi gliniaduron.

18 At ei gilydd, gwelsom fod dysgwyr a staff wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i wneud newidiadau i'r canlynol:

- deilliannau dysgwyr;
- addysgu ac asesu;
- cwricwlwm;
- adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau;

- cymorth i ddysgwyr;
- gwella ansawdd; a
- rheoli darpariaeth.

**Deilliannau dysgwyr**

19 Mae dysgwyr yn cyflawni ystod o ddeilliannau sy'n gwella eu medrau personol a chymdeithasol a'u lles. Fodd bynnag, mae'n llai clir p'un a yw cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr yn cyfrannu at welliant yn y cymwysterau y maent yn eu hennill.

20 Dim ond dechrau rhoi systemau ffurfiol ar waith y mae sefydliadau addysg bellach i gofnodi a chydnabod yr ystod o ddeilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr.

21 Mae Coleg Sir Gâr wedi dadansoddi deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau llais y dysgwyr yn y coleg. Ar gyfer y garfan hon o ddysgwyr, eu cyfradd lwyddo yw 90%, o gymharu â'r cymharydd cenedlaethol, sef 81%, a chyfradd lwyddo'r coleg ei hun, sef 82% yn 2010-2011. Fodd bynnag, teimla'r coleg y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r data hwn o ran llunio casgliadau am gyfraddau llwyddo. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau llais y dysgwyr, yn eu hanfod, fel arfer yn fwy hyderus a huawdl na'u cyfoedion.

22 Mae Coleg Gwent yn paratoi adroddiad sy'n rhoi manylion am effaith swyddogion undeb myfyrwyr a chynrychiolwyr dosbarth etholedig o ran cyfraddau llwyddo, o gymharu â'r corff cyffredinol o ddysgwyr. Mae ychydig llai (0.68%) o gynrychiolwyr dosbarth yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus na'r corff cyffredinol o ddysgwyr.

23 Mae Coleg Morgannwg yn credu bod helpu dysgwyr i gymryd rhan mewn ffurfio eu profiad dysgu wedi cyfrannu tuag at duedd gynyddol mewn cyfraddau cadw. Fodd bynnag, mae'r coleg wedi ei chael yn anodd mesur yr effaith ar gyfer dysgwyr unigol.

24 Dywed pob un o'r dysgwyr a'r staff fod dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymryd rhan yn gwella a datblygu eu medrau personol a rhyngbersonol. Mae'r medrau hyn yn cynnwys cyfathrebu, gwrando ar bobl eraill, arfarnu a chyfosod gwybodaeth. Mae dysgwyr hefyd yn magu hyder cyffredinol yn eu galluogi i gynrychioli pobl eraill ac maent wedi cynyddu cymhelliant o ganlyniad i gael eu clywed a'r camau a gymerwyd. Mae dysgwyr yn gwella eu medrau rheoli amser hefyd.

25 Mae Coleg Chweched Dosbarth Pabyddol Dewi Sant wedi cyflwyno portffolio lles sy'n helpu dysgwyr i gofnodi a myfyrio ar eu gweithgareddau er mwyn arfarnu'r hyn y maent wedi ei ddysgu a sut gallant wella ar eu cyflawniadau. Mae deilliannau o'r portffolio lles yn cysylltu'n dda â chynlluniau dysgu unigol er mwyn helpu dysgwyr a staff i arfarnu'r cynnydd cyffredinol a wna dysgwyr unigol.

26 Mae sefydliadau addysg bellach eraill yn dechrau cydnabod y medrau ehangach sy'n cael eu hennill gan bobl ifanc trwy weithgareddau cynnwys dysgwyr trwy gymwysterau Bagloriaeth Cymru neu Sgiliau Hanfodol Cymru, neu drwy ddyfarnu tystysgrifau lleol. Mae Coleg Gwent yn arbrofi â defnyddio dyfarniadau yn seiliedig ar gredydau i gydnabod y medrau a'r wybodaeth sy'n cael eu hennill gan gynrychiolwyr dosbarth.

Yn bwysig, mae dysgwyr wedi sylweddoli y gallant wneud gwahaniaeth i'w maes pwnc a chwricwlwm y cwrs.  Maent wedi dysgu eu bod yn gallu gwneud newidiadau yn eu bywydau nhw, a bywydau eu cyfoedion trwy weithredu yn unol â materion sy'n berthnasol iddyn nhw.

Er enghraifft, mae dysgwyr yng Ngholeg Chweched Dosbarth Pabyddol Dewi Sant wedi cael dealltwriaeth well o sut i gyflawni newid gwleidyddol trwy gymryd rhan yng ngwaith Undeb y Myfyrwyr.  Maent wedi perswadio Cyngor Caerdydd i fabwysiadu agenda cyflog byw yn llwyddiannus, sydd wedi gwella amodau cyflogaeth i gyflogeion y cyngor.  Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan ym mhrosiect Dinasyddion y DU y coleg wedi ymgymryd â phrosiect gwrando gyda dysgwyr eraill yng Nghaerdydd ac wedi defnyddio canlyniadau'r prosiect i roi gwybod i bleidiau gwleidyddol yng Nghaerdydd am y materion sy'n bwysig i bobl ifanc.

## Addysgu ac asesu

27 Yn y rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach, mae dysgwyr wedi newid y ffordd y mae athrawon yn addysgu.  Er enghraifft, yng Ngholeg Morgannwg, mae dysgwyr wedi darparu arfarniadau o'r hyn sy'n gwneud addysgu da a gwael a'r hyn sy'n gwneud gwers dda.  Mae dysgwyr wedi rhoi adborth ar brydlondeb a phresenoldeb athrawon hefyd.  Mae'r coleg yn cynnwys yr arfarniadau hyn mewn hyfforddiant athrawon am ddysgu gwahaniaethol ac asesu ar gyfer dysgu.  Mae hefyd yn cysylltu'r adborth â'i broses ar gyfer arsylwi athrawon ac mae wedi cryfhau ei ddull o fonitro prydlondeb a phresenoldeb athrawon.

28 Yng Ngholeg Chweched Dosbarth Pabyddol Dewi Sant, mae dysgwyr o'r farn fod adborth gan gynrychiolwyr dosbarth wedi helpu athrawon i newid arferion yn yr hyn y maent yn ei addysgu.  Mae adborth gan ddysgwyr wedi annog athrawon i gynnwys testunau gwahanol yn eu cyrsiau a defnyddio deunyddiau gwahanol.  Er enghraifft, cyflwynodd un tiwtor fodiwl newydd ar gwrs seicoleg o ganlyniad i adborth gan ddysgwyr.  Yng Ngholeg Sir Gâr, mae dysgwyr wedi gwella ansawdd yr adborth y mae athrawon yn ei roi i ddysgwyr, yn enwedig mewn perthynas â sut gallent wella eu gwaith.  Mae dysgwyr hefyd wedi dylanwadu ar y modd y mae athrawon yn trefnu aseiniadau ac wedi cyfrannu at newidiadau mewn dulliau addysgu.  Yng Ngholeg Gwent, mae Undeb y Myfyrwyr yn cyflwyno 'sesiwn ysbrydoli' 45 munud i staff addysgu yn ystod eu diwrnodau hyfforddi, i'w helpu i ddeall sut gallant hyrwyddo Llais y Dysgwyr yn eu haddysgu.

## Y cwricwlwm

29 Mae dysgwyr wedi cyfrannu at ystod o welliannau i'r cwricwlwm mewn sefydliadau addysg bellach.  Yn dilyn adborth gan ddysgwyr yn ei senedd i ddysgwyr a chynhadledd ddysgu, mae Coleg Morgannwg wedi cyflwyno ieithoedd tramor modern yn ei raglen Safon Uwch.  Mae wedi cynnig cyrsiau Saesneg a mathemateg TGAU ychwanegol hefyd i helpu dysgwyr i wella eu graddau, ac mae'n rhoi mwy o gymorth Saesneg fel iaith dramor i ddysgwyr sydd ei angen.

30 Mae cynrychiolwyr cwrs yng Ngholeg Chweched Dosbarth Pabyddol Dewi Sant wedi llwyddo i berswadio tiwtoriaid i gyflwyno modiwlau newydd i'r cwrs seicoleg Safon Uwch.  Roeddent o'r farn fod angen adfywio'r cwrs er mwyn apelio at ddysgwyr

heddiw. Mae dysgwyr wedi bod yn llwyddiannus wrth ddylanwadu ar athrawon i ddefnyddio gwahanol ddeunyddiau'r cwricwlwm, gan gynnwys llyfrau cwrs newydd a ffilmiau.

31 Mae dysgwyr yng Ngholeg Morgannwg a Choleg Penfro wedi dylanwadu ar gyflwyno ystod newydd o weithgareddau cyfoethogi.

32 Mae Coleg Morgannwg wedi gweithio'n dda gyda dysgwyr i drefnu rhaglen 'Hwb' ('Boost') o weithgareddau cyfoethogi. Mae wedi aildrefnu ei amserlen fel bod prynhawn dydd Mercher yn rhydd i wneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. Mae'r coleg yn bwriadu datblygu 'Boost' i helpu dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ei drefniadaeth a'i hyrwyddo.

33 Mae Coleg Penfro wedi cyflwyno rhaglen debyg o weithgareddau anffurfiol sy'n cael eu harwain gan ddysgwyr. Mae un dysgwr wedi helpu i sefydlu cymdeithas gemau sy'n cyfarfod bob wythnos mewn ystafell gyfrifiaduron nas defnyddir. Mae'r coleg yn darparu'r offer rhwydwaith ceblau angenrheidiol i alluogi dysgwyr i chwarae ar eu consolau gan ddefnyddio rhwydwaith y coleg. Yn yr un modd, mae'r coleg wedi cefnogi grŵp o fyfyrwyr i sefydlu clwb gwyddbwyll ac mae llywodraethwr myfyrwyr wedi sefydlu cymdeithas sosialaidd lle mae dysgwyr yn trafod ystyriaethau cyfredol a materion cyfoes.

34 Yng Ngholeg Sir Gâr, mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol wedi cael eu cynnwys yn ganolog mewn gwella dealltwriaeth dysgwyr a staff am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fe wnaeth dysgwyr ddyfeisio a chynnal cyfres o berfformiadau gan ddefnyddio techneg y "theatr fforwm"[1] i gynnwys y gynulleidfa a syniadau i ddatrys materion cymdeithasol. Defnyddiodd y dysgwyr eu profiadau eu hunain o'r ysgol a'r coleg i gyflwyno set o ddarnau yn ymwneud â homoffobia, hiliaeth, rhywiaeth ac anabledd. Perfformiodd dysgwyr o flaen dros 1,000 o ddysgwyr ym mhob un o gampysau'r coleg. Ym mhob achos, gofynnwyd i'r gynulleidfa gymryd rhan mewn helpu i ddatrys y sefyllfa. Roedd effaith y dull hwn wedi'i arwain gan ddysgwyr yn allweddol i lwyddiant ymgysylltu â dysgwyr eraill a gwella eu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb.

35 O ganlyniad i'r effaith ar ddysgwyr, gofynnodd Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y coleg i'r actorion ailadrodd y perfformiadau fel ymarfer datblygu staff. Cyflwynodd dysgwyr sesiynau i dros 300 aelod o staff a chodwyd eu hymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â pharch ac amrywiaeth.

36 Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd grŵp ffocws gyda dysgwyr, ailstrwythurodd Coleg Gwent ei raglen cyfoethogi tiwtorial i'w gwneud yn fwy perthnasol i brif raglenni astudio dysgwyr. Mae amserlenni gwell hefyd wedi cynyddu'r amser sydd ar gael ar gyfer cymorth bugeiliol yn y rhaglenni tiwtorial. Mae dysgwyr yn parhau i gymryd rhan mewn adolygiad blynyddol o'r rhaglen cyfoethogi tiwtorial.

[1] Math o theatr wedi ei chreu gan yr ymarferwr arloesol a dylanwadol Augusto Boal yw'r **theatr fforwm,** fel rhan o'r hyn y mae'n ei alw'n ei "Theatre of the Opressed." Creodd Boal theatr Fforwm yn fforwm ar gyfer addysgu pobl sut i newid eu byd. Tra oedd yn ymarfer yn gynharach yn ei yrfa, byddai Boal yn cymhwyso 'dramäwriaeth gydamserol'. Yn y broses hon, gallai'r actorion neu aelodau o'r gynulleidfa atal perfformiad, a oedd yn aml yn olygfa fer pan oedd cymeriad yn cael ei ormesu mewn rhyw ffordd. Byddai'r gynulleidfa yn awgrymu gweithredoedd gwahanol i'r actorion eu gwneud ar y llwyfan mewn ymgais i newid canlyniad yr hyn roeddent yn ei weld.

## Adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau

37 Yn gyffredinol, mae dysgwyr wedi dylanwadu ar y modd y mae eu sefydliadau addysg bellach yn datblygu adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau gwell. O ganlyniad, mae Coleg Penfro wedi gosod ffynhonnau dŵr ychwanegol a pheiriannau arian parod ac wedi sefydlu siop goffi newydd o ganlyniad i adborth gan ddysgwyr. Yng Ngholeg Chweched Dosbarth Dewi Sant, llwyddodd y dysgwyr i berswadio'r coleg i gynyddu nifer yr arwyddion Cymraeg o amgylch y coleg.

38 Dylanwadodd dysgwyr yng Ngholeg Morgannwg ar y coleg i wella'r amgylchedd a'r adnoddau yng nghanolfannau dysgu'r coleg. Mae'r coleg wedi cynyddu nifer y cyfrifiaduron ac wedi creu mannau astudio tawel yn ei holl ganolfannau dysgu. Mae wedi cyflwyno mannau eistedd anffurfiol mewn dau o'i ganolfannau dysgu hefyd.

39 Yng Ngholeg Sir Gâr, mae dysgwyr wedi helpu i sicrhau gwelliannau tebyg i ganolfannau dysgu ar draws ystâd y coleg. Cymerodd dysgwyr ran weithredol mewn dylunio ac adnewyddu ffreuturau ar draws y coleg, ac fe wnaethant berswadio'r coleg i ddarparu peiriant arian parod yn un o'i ffreuturau. Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i'w cynnwys mewn trafodaethau am ddatblygu cyfleusterau newydd fel canolfan anifeiliaid a cheffylau, adleoli cyfleusterau llyfrgell a sefydlu siop gelf sy'n cael ei rhedeg gan ddarparwr trydydd parti.

Lleisiwyd pryder gan ddysgwyr yng Ngholeg Gwent ynghylch addasrwydd a chyflwr yr adeiladau gwasanaethau myfyrwyr. O ganlyniad, adnewyddodd y coleg ei adeiladau gwasanaethau myfyrwyr, sydd bellach yn cynnig cyfleusterau mwy cynllun agored, cyfeillgar a chroesawgar.

## Cymorth i ddysgwyr

40 Mewn rhai achosion, mae dysgwyr wedi dylanwadu ar y math o gymorth a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach. Mae dysgwyr yng Ngholeg Morgannwg a Choleg Sir Gâr wedi dylanwadu ar ddiwygio cynlluniau pas bysiau. Mae Coleg Morgannwg wedi adolygu'r modd y mae'n rhoi cymorth i ddysgwyr â dyslecsia hefyd ac wedi aildrefnu'r ffordd y mae'n rhoi cymorth ar gyfer datblygu medrau.

41 Mae Coleg Gwent wedi adolygu ei fodel ar gyfer cymorth i fyfyrwyr o ganlyniad i adborth gan ddysgwyr. Mae wedi rhoi un model cymorth ar waith ar draws ei holl safleoedd, sy'n darparu:

- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad (GCA) a chymorth lles ac ariannol;
- cymorth medrau, gan gynnwys medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a medrau iaith ac astudio; a
- chymorth dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

## Gwella ansawdd

42 Yn gyffredinol, mae sefydliadau addysg bellach yn cynnwys adborth gan ddysgwyr yn dda yn eu cynlluniau datblygu ansawdd. Mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan ddysgwyr yn effeithiol yn y broses hunanasesu a chynllunio gweithredu.

43 Mae llawlyfr ansawdd Coleg Sir Gâr yn pwysleisio rôl ei baneli llais y dysgwyr o ran ysgogi datblygu materion ar draws y coleg. Yn yr un modd, mae ei baneli llais y dysgwyr ar gyfer meysydd y cwricwlwm yn llywio asesu addysgu a dysgu ac adroddiadau hunanasesu meysydd y cwricwlwm a chynlluniau datblygu ansawdd. Caiff y paneli hyn eu trefnu gan reolwyr cwricwlwm ac maent yn cyfarfod yn ffurfiol bob tymor. Mae staff wedi dyfeisio set o gwestiynau strwythuredig ar gyfer pob cyfarfod ac maent yn cynnwys dysgwyr mewn trafodaethau am addysgu a dysgu. Datblygir cynllun gweithredu ar ôl pob cyfarfod ac fe gaiff ei rannu gydag aelodau o staff yn y maes cwricwlwm. Wedyn, caiff ymatebion i'r gweithredoedd eu bwydo yn ôl i ddysgwyr yn y rhaglen diwtorial.

44 Mae Coleg Morgannwg yn cynnal cynhadledd flynyddol i ddysgwyr. Mae'r gynhadledd yn canolbwyntio ar ansawdd gwasanaeth y coleg i ddysgwyr. Mae tua 80 o gynrychiolwyr dosbarth yn ei fynychu o bob rhan o'r coleg, ynghyd ag uwch reolwyr a chynrychiolwyr rhanbarthol Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Mae'r gynhadledd yn blaenoriaethu'r meysydd i'w gwella sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan ddysgwyr. Mae'r Pennaeth yn gweithio gydag aelodau eraill o staff i baratoi cynllun gweithredu, sy'n ymgorffori canlyniadau'r gynhadledd. Mae pwyllgor cwricwlwm ac ansawdd y coleg yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

45 Bu'r tîm ansawdd yng Ngholeg Gwent yn gweithio gyda dysgwyr a chynrychiolwyr staff, i gytuno ar brotocol ar gyfer cynnwys dysgwyr mewn arsylwadau addysgu a dysgu. Defnyddiodd y tîm ansawdd y protocol i ddyfeisio set safonol o gwestiynau i'w gofyn i ddysgwyr, ac arbrofwyd â'u defnyddio yng Nghampws Dinas Casnewydd ym Medi 2010. Cofnododd yr arsyllwr arfarniadau dysgwyr ar y ffurflen arsylwi. Defnyddiodd y tîm ansawdd yr arfarniadau hyn i lywio barnau am ansawdd yr addysgu. Yn ddiweddarach, rhaeadrodd y coleg y gwaith hwn ar draws yr holl gampysau o Fedi 2011.

## Rheoli darpariaeth

46 Yn gyffredinol, mae sefydliadau addysg bellach yn cynnwys dysgwyr yn dda mewn rheoli'r sefydliad. Mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod o gyfarfodydd rheoli, gan gynnwys cyfarfodydd llywodraethwyr, pwyllgorau campws a chyfarfodydd cwricwlwm ac ansawdd. O ganlyniad, mae dysgwyr yn rhoi safbwynt y myfyriwr ar y materion a gaiff eu trafod.

## Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr: Prosiect cynrychioli myfyrwyr addysg bellach

47 Er Medi 2010, mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi ariannu Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr i gyflwyno prosiect cynrychioli myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i ddatblygu a chefnogi strwythurau cynrychioli myfyrwyr a chynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach ledled Cymru. Mae'r prosiect yn cefnogi Strategaeth Cynnwys Dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu ôl-16. Mae'r prosiect wedi cynnwys sefydliadau addysg bellach yn y prosiect yn gynyddol. Dechreuodd gyda saith sefydliad addysg bellach yn y flwyddyn academaidd 2010-2011 a bu'n gweithio gyda chwe sefydliad addysg bellach arall yn 2011-2012. Mae'r prosiect wedi symud i'w drydedd flwyddyn a'i flwyddyn olaf ac mae wedi recriwtio'r pum sefydliad addysg bellach sy'n weddill.

48 Nod y prosiect yw:

- datblygu a chefnogi strwythurau cynrychioli myfyrwyr a chynnwys dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach ledled Cymru;
- mynd i'r afael â heriau cynrychioli myfyrwyr trwy weithio ar lefel leol gyda sefydliadau addysg bellach; a
- chreu newid yn y diwylliant ymhlith myfyrwyr, staff colegau a gweithdrefnau i sicrhau bod Cymru yn cynnal ei safle fel cenedl sy'n buddsoddi yn llais y dysgwyr.

49 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'r prosiect wedi rhoi ystod o hyfforddiant a chyngor i sefydliadau addysg bellach, gan gynnwys:

- hyfforddi dysgwyr fel llywodraethwyr myfyrwyr;
- hyfforddi swyddogion cyswllt myfyrwyr ac aelodau eraill o staff cymorth perthnasol;
- cyngor a chymorth i helpu sefydliadau addysg bellach i gefnogi a datblygu strwythurau ymgysylltu â myfyrwyr yn annibynnol; a
- chyngor a chymorth i gynrychiolwyr dosbarth.

50 Mae'r prosiect yn monitro ac yn adrodd ar allbynnau'r prosiect, er enghraifft nifer y cynrychiolwyr dosbarth neu'r llywodraethwyr myfyrwyr sydd wedi eu hyfforddi neu pa mor dda y mae sefydliadau addysg bellach wedi mabwysiadu'r cysyniad o gynrychioli myfyrwyr. Fodd bynnag, nid yw'r prosiect wedi monitro effaith cynrychiolwyr dosbarth na llywodraethwyr myfyrwyr ar addysgu a dysgu na rheoli a datblygu sefydliadau addysg bellach eto.

51 Serch hynny, canfu arolygwyr fod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus o ran y canlynol:

- dylanwadu ar sefydliadau addysg bellach i gyflwyno mwy o gyfranogiad gan fyfyrwyr wrth reoli eu sefydliadau;
- cefnogi sefydliadau addysg bellach i ddatblygu a rhoi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith;

- helpu dysgwyr i ennill medrau personol (trefnu, cyswllt cymdeithasol a gwrando) a medrau gwleidyddol;
- cynorthwyo cynrychiolwyr dosbarth a chwrs i sicrhau newidiadau i gyrsiau a'r cwricwlwm;
- hyfforddi llywodraethwyr myfyrwyr i gynnig safbwynt dysgwyr yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol;
- gwella'r modd y mae athrawon yn ymgynghori â phobl ifanc ac annog athrawon i adolygu sut a beth maent yn ei addysgu; a
- rhoi hyfforddiant i swyddogion cyswllt cymorth myfyrwyr.

## Canolfannau Cymraeg i oedolion

52 Sefydlwyd chwech o ganolfannau rhanbarthol Cymraeg i oedolion gan Lywodraeth Cymru yn 2006. Yn 2010-2011, roedd 18,205 o oedolion yn dysgu Cymraeg trwy'r chwe chanolfan. Ymwelodd Estyn â phump o'r canolfannau Cymraeg i oedolion fel rhan o'r arolwg hwn. Fe wnaethom gynnal trafodaethau gyda sampl gynrychioliadol o reolwyr a thiwtoriaid ym mhob un o'r canolfannau hyn a gyda thua 50 o ddysgwyr i gyd.

53 Gwelsom fod gan bob un o'r pum sefydliad strategaethau a gweithgareddau ar gyfer cynnwys dysgwyr sy'n cael eu hymgorffori yng ngwaith pob sefydliad. Mae pob un o'r canolfannau iaith wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu strategaeth gyffredin i gynnwys dysgwyr. Mae'r strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer canolfannau dysgu unigol i roi ystod o weithgareddau ar waith sy'n cael eu haddasu i ymateb i nodweddion eu rhanbarth.

54 Mae pob un o'r canolfannau yn defnyddio arolygon boddhad dysgwyr i gael safbwyntiau dysgwyr, gan gynnwys y dysgwyr hynny mewn darpariaeth a gyflwynir gan gontractwyr. Mae pob un o'r canolfannau wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer dadansoddi deilliannau'r arolygon hyn. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio deilliannau'r arolygon i wneud newidiadau a gwelliannau i'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae rhai canolfannau iaith yn cynnal yr arolwg ar ddiwedd y cwrs. Mae hyn yn golygu bod y canolfannau hyn yn colli cyfle i adolygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr presennol er mwyn newid y cyrsiau neu'r cwricwlwm os bydd angen.

55 Mae pob un o'r canolfannau yn rhoi adborth i ddysgwyr am ddeilliannau cyffredinol yr arolygon hyn i roi gwybod iddynt beth sydd wedi digwydd o ganlyniad. Mae canolfannau yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyhoeddi deilliannau cyffredinol yr arolygon hyn - trwy wefannau, mewn cylchgronau dysgwyr neu drwy roi adborth i ddysgwyr trwy diwtoriaid.

56 Er enghraifft, mae canolfan iaith canolbarth Cymru yn gwneud defnydd da o'i chylchgrawn dysgwyr i adrodd yn ôl am ddeilliannau arolygon i ddysgwyr a hyrwyddo'r cysyniad o gynnwys dysgwyr. Mae'r cylchgrawn hefyd yn rhoi enghreifftiau da o'r modd y gall dysgwyr ddefnyddio eu medrau iaith yn eu cymunedau a'u bywyd bob dydd. Mae canolfan Caerdydd a Bro Morgannwg yn hyrwyddo cynnwys dysgwyr trwy ei thudalen Facebook ac mae'n annog dysgwyr i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ganolfan.

57 Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw canolfannau Cymraeg i oedolion yn rhoi adborth am yr hyn y mae dysgwyr mewn dosbarthiadau unigol wedi ei ddweud mewn arolygon. O ganlyniad, nid yw tiwtoriaid yn ymwybodol o ansawdd y profiad dysgu ar gyfer eu dysgwyr. Yn yr un modd, nid yw dysgwyr yn gwybod sut mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar welliannau i'w dosbarth neu eu cwrs.

58 Yn gyffredin â sefydliadau addysg bellach, mae'r rhan fwyaf o ganolfannau Cymraeg i oedolion wedi symud y tu hwnt i ddefnyddio holiaduron neu arolygon fel y brif ffordd o helpu dysgwyr i gyfrannu at wella eu profiad dysgu. Mae pob canolfan yn defnyddio ystod eang o ddulliau defnyddiol ar gyfer dal llais y dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys siarad â dysgwyr yn ystod arsylwadau addysgu a dysgu, a chynnal paneli dysgwyr/staff, grwpiau ffocws a thrafodaethau gydag unigolion neu grwpiau o ddysgwyr.

59 Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn defnyddio cymysgedd o gynrychiolwyr dosbarth neu baneli dysgwyr a staff i hyrwyddo trafodaethau gyda dysgwyr. Mae dysgwyr yn ystyried bod y trefniadau hyn yn ddefnyddiol iawn. Gall dysgwyr ddweud beth sy'n dda neu'n ddrwg ynglŷn â'u cwrs, a gallant ddylanwadu ar newidiadau i'w cyrsiau a'r cwricwlwm neu sut caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno. Serch hynny, mae dysgwyr sy'n ymgymryd â rôl cynrychiolwyr dosbarth yn credu y byddent yn elwa ar gael brîff mwy cynhwysfawr am rôl y cynrychiolydd dosbarth. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn paneli dysgwyr yn codi pryderon am eu gallu i fynychu panel o ran amser, trefniadau gofal a chostau teithio.

60 Mae dysgwyr Cymraeg i oedolion yn credu bod cymryd rhan mewn grwpiau ffocws, paneli dysgwyr neu weithredu fel cynrychiolydd dosbarth yn eu helpu i ddefnyddio pob un o'r pedwar medr iaith mewn cyd-destun gwahanol a gyda gwahanol bobl, ac felly'n cyfrannu at wella eu cyflawniad. Mae pob un o'r canolfannau yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i helpu dysgwyr i osod targedau ar gyfer gwella, cofnodi'r gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw ac adolygu eu cynnydd. Fodd bynnag, oherwydd eu hunion natur, mae cynlluniau dysgu unigol yn canolbwyntio ar dargedau tymor byr – fel arfer bob tymor neu bob blwyddyn. Nid yw'r canolfannau yn galluogi dysgwyr na thiwtoriaid i gofnodi a chydnabod cynnydd dros gyfnodau hwy. O ganlyniad, nid yw dysgwyr bob amser yn cydnabod effaith gynyddol cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr ar gaffaeliad a datblygu iaith.

61 At ei gilydd, mae gan ddysgwyr rôl weithredol mewn ffurfio eu profiad dysgu. Canfu arolygwyr fod dysgwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella:

- medrau iaith dysgwyr;
- ansawdd yr addysgu;
- cwricwlwm ac adnoddau;
- gweithdrefnau, cyfleusterau a lleoliadau;
- gwella ansawdd; a
- rheoli darpariaeth.

## Medrau iaith dysgwyr

62 Mae dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu eu medrau Cymraeg trwy gymryd rhan mewn paneli neu grwpiau ffocws dysgwyr, rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol, gweithredu fel cynrychiolwyr dosbarth a threfnu ystod eang o

weithgareddau dysgu anffurfiol. Maent yn mynd ati i ddefnyddio'r profiadau hyn i wella eu medrau iaith mewn cyd-destunau gwahanol a mwy heriol.

63 Mae oedolion sy'n cymryd rhan mewn paneli dysgwyr neu'n gweithredu fel cynrychiolwyr dosbarth yn mwynhau'r her o ddefnyddio pob un o'r pedwar medr iaith, sef siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, mewn sefyllfa newydd. Dywedant fod hyn yn ymestyn eu geirfa ac yn helpu eu dealltwriaeth o'r iaith ysgrifenedig. Mae canolfan Cymraeg i oedolion Morgannwg yn trefnu nifer o baneli dysgwyr. Sefydlwyd paneli mewn pum ardal ar draws y rhanbarth ac ar gyfer ei chwrs dwys. Mae paneli yn cynnig cyfle i ddysgwyr roi adborth am y cwrs, y deunyddiau a'r adnoddau, y cwricwlwm ac addasrwydd lleoliadau, ac ati. Mae paneli yn rhoi cyfle i staff drafod materion gyda dysgwyr ac adrodd ar gynnydd hefyd.

64 Mae canolfannau Cymraeg i oedolion yn annog dysgwyr i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i helpu dysgwyr i fynegi eu safbwyntiau a'u barn a threfnu gweithgareddau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ymarfer eu medrau darllen ac ysgrifennu hefyd, a sefydlu pwyntiau cyswllt ar gyfer dysgwyr eraill. Mae hyn yn bwysig iawn mewn ardaloedd o Gymru lle na all dysgwyr deithio'n hawdd i fynychu cyfarfodydd.

65 Mae un dysgwr yng Ngwent wedi sefydlu tudalen Facebook ar gyfer dysgwyr eraill ar draws y rhanbarth. Gwnaeth hyn mewn partneriaeth â'r ganolfan fel ffordd o helpu dysgwyr i ddefnyddio eu medrau iaith mewn cyd-destun rhithwir. Mae'n monitro a rheoli'r dudalen i hyrwyddo gwaith y ganolfan a chyfleu gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr eraill yn gallu ymarfer eu medrau darllen ac ysgrifennu a phostio gwybodaeth am eu gweithgareddau eu hunain. Mae dysgwyr yn Llanbedr Pont Steffan wedi sefydlu tudalen Facebook yn benodol ar gyfer ei dosbarth hefyd er mwyn i aelodau allu ymarfer eu medrau a chadw mewn cysylltiad â'i gilydd y tu allan i'r dosbarth.

## Ansawdd yr addysgu

66 Mae'r rhan fwyaf o'r canolfannau yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio gwahanol ffyrdd o gynnwys dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu.

67 Bu'r ganolfan yng Ngogledd Cymru yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i ddiwygio a datblygu fformat newydd ar gyfer cynlluniau dysgu unigol. Yn y gorffennol, roedd dysgwyr wedi mynegi llawer o bryder am aneffeithlonrwydd y cynllun dysgu unigol. Fe wnaethant gyfrannu at ddyluniad a fformat newydd ar gyfer y cynllun. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei fabwysiadu gan bob canolfan ledled Cymru ers hynny.

68 Mae pob un o'r canolfannau yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol i helpu dysgwyr i osod targedau personol ac adolygu eu cynnydd. Fodd bynnag, dim ond rhai o'r canolfannau sy'n gwneud defnydd da o'r cynlluniau dysgu unigol hyn i helpu dysgwyr i ddylanwadu ar natur eu dysgu. Mae un ganolfan yn sicrhau bod tiwtoriaid yn ymgorffori targedau personol dysgwyr yn eu cynlluniau gwaith i wneud yn siŵr bod cynllunio cyrsiau yn ystyried y targedau hyn.

69 Mae nifer fach iawn o ddysgwyr yn pryderu nad yw cynlluniau dysgu unigol yn rhoi digon o ystyriaeth i arddulliau dysgu unigol, a gwahaniaethau ym mamiaith dysgwyr. Mae'r dysgwyr hyn yn amlieithog ac nid Saesneg yw eu mamiaith. Mae ganddynt

ffyrdd gwahanol o ddysgu ieithoedd newydd. O ganlyniad, mae'r dysgwyr hyn yn pryderu nad yw canolfannau yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn ddigon da i lywio addysgu a chynllunio cyrsiau a'u helpu i ddysgu Cymraeg yn gyflym.

70 Mae llawer o ganolfannau yn defnyddio arsylwadau addysgu a dysgu i drafod ansawdd eu profiad dysgu gyda dysgwyr. Mae'r canolfannau hyn wedi canfod bod hyn yn ffordd ddefnyddiol o gasglu safbwyntiau a barn ystod eang o ddysgwyr ar draws y rhanbarth a helpu i wella addysgu a dysgu.

71 Mae tiwtoriaid yn gyswllt pwysig ar gyfer dysgwyr i gynnig adborth am ansawdd eu profiad dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau yn darparu hyfforddiant neu friffiau ar gyfer tiwtoriaid i'w helpu i roi gweithgareddau llais y dysgwyr ar waith. Mae llawer o diwtoriaid yn agored i drafodaeth gyda dysgwyr ynglŷn â sut gallant wella'r hyn y maent yn ei gynnig i ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw rhai tiwtoriaid yn manteisio ar y cyfle i archwilio safbwyntiau a barn dysgwyr yn barhaus er mwyn gwneud newidiadau wrth i'r cwrs fynd rhagddo.

## Cwricwlwm ac adnoddau

72 Mae pob un o'r canolfannau yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i'w hannog i drefnu ystod o weithgareddau dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn i ddysgwyr allu ymarfer eu medrau mewn cyd-destun gwahanol. Mae dysgwyr yn mynd ati i drefnu gweithgareddau cymdeithasol fel grwpiau darllen, grwpiau cerdded, boreau coffi, nosweithiau cymdeithasol, teithiau i leoedd o ddiddordeb a digwyddiadau tymhorol. Mewn dwy ganolfan, mae dysgwyr yn gwneud trefniadau ar gyfer cael siaradwyr ymweliadol i'w dosbarth. Yn gyffredinol, mae dysgwyr wedi eu cymell i gymryd rhan mewn trefnu'r gweithgareddau hyn fel ffordd o wella eu medrau iaith eu hunain a defnyddio'r medrau hyn mewn sefyllfa wahanol.

73 Mae canolfannau Cymraeg i oedolion wedi gwneud defnydd da o adborth gan ddysgwyr i ddiwygio deunyddiau a llawlyfrau cwrs a gwneud newidiadau i gwricwla cyrsiau. Er enghraifft, bu'r ganolfan yng Ngogledd Cymru yn gweithio'n dda gyda dysgwyr i ddatblygu'r cwrs Cymraeg i'r Teulu. Addasodd canolfan Morgannwg ei chwricwlwm ar gyfer cyrsiau lefel ganolraddol ac uwch yn dilyn adborth gan ddysgwyr. Ailwampiodd ei chwrs dwys hefyd. Cyflwynodd y ganolfan fwy o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu medrau siarad ar gyrsiau lefel uwch trwy gyflwyno gweithdai a threfnu ar gyfer siaradwyr ymweliadol. Cyflwynodd y ganolfan gyfieithiadau Saesneg i ddeunydd cwrs ar gyfer ei chyrsiau dwys hefyd.

74 Yng Ngwent, mae dysgwyr wedi gallu dylanwadu ar gyflwyno cyrsiau newydd i helpu eu paratoi ar gyfer lefelau dysgu uwch. Roedd dysgwyr yn pryderu bod symud i lefelau dysgu uwch – er enghraifft, o lefel 2 i lefel 3 – yn aml yn gam rhy fawr. O ganlyniad, cyflwynodd y ganolfan gyrsiau pontio sy'n helpu dysgwyr i wella eu gramadeg, ymestyn eu geirfa a chynyddu eu hyder i'w helpu i symud i'r lefel dysgu nesaf.

75 Mae'r ganolfan yng nghanolbarth Cymru wedi gweithio'n dda gyda dysgwyr i wella cyfleoedd ar gyfer darllen llenyddiaeth Gymraeg. Mae wedi helpu i sefydlu clybiau darllen ac wedi prynu llyfrau i ddysgwyr gael eu benthyg. Mae'n gweithio gyda gwasanaethau llyfrgell lleol hefyd i gadw cyflenwad o lyfrau Cymraeg.

**Gweithdrefnau, cyfleusterau a lleoliadau**

76 Mae pob un o'r canolfannau yr ymwelwyd â nhw yn ymateb yn dda i adborth dysgwyr am ansawdd cyfleusterau a lleoliadau. Mae dysgwyr yn aml yn mynegi pryder am ansawdd lleoliadau, gwresogi a'r cyfleusterau sydd ar gael mewn lleoliadau. Mae pob canolfan yn gweithio'n briodol i ddatrys y materion hyn.

77 Yng Ngogledd Cymru, mae dysgwyr wedi dylanwadu ar gyflwyno gweithdrefnau ymrestru symlach. Maent wedi mynegi beirniadaeth am natur feichus ymrestru a'r angen i roi manylion bob tro y maent yn cofrestru ar gwrs newydd.

**Gwella ansawdd**

78 Mae pob un o'r canolfannau yr ymwelwyd â nhw yn gwneud defnydd priodol o ddeilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i lywio eu gweithgareddau gwella ansawdd. Mae hyn yn cynnwys trafod materion mewn pwyllgorau cwrs er mwyn rhoi newidiadau ar waith, gan gynnwys adborth dysgwyr mewn hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd.

79 Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae staff yn gwneud defnydd da o ddeilliannau arolygon dysgwyr i lywio hunanasesu a chynllunio gwella ansawdd a diwygio'r cwricwlwm. Mae'r ganolfan yng Ngogledd Cymru yn rhoi adroddiad tymhorol ar ddeilliannau ei gwaith cynnwys dysgwyr i'w Phanel Ansawdd. Mae'r adroddiad yn ymdrin â newidiadau sylweddol i'r rhaglen a'r cwricwlwm o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn. Mae hefyd yn cynnwys sut mae staff yn adrodd am ddeilliannau wrth ddysgwyr. Mae'r ganolfan yng Ngwent yn defnyddio cronfa ddata i ddadansoddi deilliannau arolygon dysgwyr a llywio hunanasesu. Mae'r ganolfan hefyd yn rhoi manylion am arfarniadau dysgwyr i'w chontractwyr trydydd parti i'w helpu i wella eu darpariaeth.

**Rheoli darpariaeth**

80 Yn gyffredinol, mae'r canolfannau Cymraeg i oedolion yn mynd ati i gynnwys dysgwyr wrth wella'r ffordd y caiff darpariaeth ei rheoli. Yn y rhan fwyaf o ganolfannau, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod o gyfarfodydd rheoli, gan gynnwys paneli llais y dysgwyr a chynadleddau, sy'n rhoi cyfeiriad i waith y canolfannau.

81 Mae'r ganolfan yng Ngogledd Cymru yn cynnwys dysgwyr yng ngwaith pwyllgor y ganolfan. O ganlyniad, gall dysgwyr gynnig safbwynt y dysgwr ar y materion a gaiff eu trafod. Yn y ganolfan yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae gweithgareddau cynnwys dysgwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar ystod o weithgareddau busnes y ganolfan, er enghraifft marchnata, hunanasesu, cynllunio strategol a datblygu cyfleoedd dysgu ar y we. Yng nghanolfan Morgannwg, mae paneli dysgwyr yn effeithiol wrth ddylanwadu ar welliannau i'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth. Caiff dysgwyr eraill eu hannog i drefnu gweithgareddau ystafell ddosbarth fel gwneud trefniadau ar gyfer siaradwyr ymweliadol.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Fel rhan o'r arolwg hwn, mae arolygwyr wedi casglu ac arfarnu ystod o wybodaeth. Rydym wedi ymweld â phum sefydliad addysg bellach a phum canolfan iaith Cymraeg i oedolion i olrhain y cynnydd y maent wedi'i wneud wrth roi strategaethau cynnwys dysgwyr ar waith.

Fe wnaethom gyfarfod â staff, tiwtoriaid a dysgwyr yn y canlynol:

- Coleg Gwent;
- Coleg Morgannwg;
- Coleg Penfro;
- Coleg Powys;
- Coleg Sir Gâr;
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg;
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Morgannwg;
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Gwent;
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru; a
- Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru.

Cyfarfu'r arolygydd cofnodol â staff yn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr hefyd am y Prosiect Cynrychioli Myfyrwyr Addysg Bellach.

Adolygodd y tîm y strategaethau cynnwys dysgwyr a ddarparwyd gan y sefydliadau hyn ac ystod o ddogfennau eraill yn ymwneud â gweithgareddau penodol am gynnwys dysgwyr.

Cynhaliodd arolygwyr gyfweliadau gyda staff, tiwtoriaid a dysgwyr er mwyn arfarnu effeithiolrwydd ac effaith gweithgareddau cynnwys dysgwyr.

## Atodiad 2: Tîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Liam Kealy AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims AEM | Arolygydd Cyswllt Ôl-16 |
| Bernard Hayward | Arolygydd Cyswllt Ôl-16 |